

ARCHWILIAD Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn	Arolygwyr / Inspectors: HYWEL WYN JONES BA (Hons), BTP, MRTPI RICHARD DUGGAN BSc (Hons), DipTP, MRTPI Swyddog Rhaglen / Programme Officer: SHARON ELLIS ☎ 01286 679411 ✉ SwyddogRhaglen@gwynedd.llyw.cymru Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH
Anglesey & Gwynedd Joint Local Development Plan EXAMINATION	

Ms N H Davies
Rheolwr
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Llawr 1^{af} Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT

18 Tachwedd 2016

Annwyl Ms Davies,

Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026 - Cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9

Mewn llythyr at holl Brif Swyddogion Cynllunio ar yr 17^{eg} Tachwedd 2016 wnaeth Prif Gynllunydd Llywodraeth Cymru dynnu eich sylw at gyhoeddi rhifyn diweddaraf Polisi Cynllunio Cymru, a fersiwn newydd Nodyn Cyngor Technol Rhif 4, *Datblygiadau Manwerthu a Masnachol*.

Gofynnir i chi gyflwyno papur i asesu goblygiadau'r newidiadau hyn i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Dylai'r Cynghorau esbonio p'un ai eu bod yn ystyried yr angen am newidiadau o sylwedd i'r Cynllun o ganlyniad i hyn. Os adnabyddir unrhyw newidiadau o'r fath, dylid eu esbonio a'u cynnwys yn y rhestr Newidiadau yn sgil Materion sy'n Codi sydd eisoes ar waith. Mae cyfle hefyd i ddiweddarau'r cynllun trwy gynnwys cyfeiriadau at y fersiynau diweddaraf yma o bolisi cynllunio cenedlaethol. Gellir cynnwys rhain hefyd yn y rhestr Newidiadau yn sgil Materion sy'n Codi.

Dylid cyflwyno ymateb i'r pwyntiau uchod, gan amlinellu amserlen ar gyfer unrhyw waith pellach yr ydych yn bwriadu ymgymryd ag ef, erbyn 2^{il} Rhagfyr 2016. Er gwybodaeth i bartïon eraill â buddiant, caiff y llythyr hwn ac unrhyw wybodaeth ychwanegol neu ohebiaeth bellach ynglŷn â'r mater hwn eu rhoi ar wefan yr archwiliad.

Estynnir croeso i chi gysylltu â mi drwy Swyddog y Rhaglen os byddwch angen unrhyw eglurhad pellach ar unrhyw un o'r pwyntiau uchod.

Yn gywir

Hywel Wyn Jones
Arolygydd